

Cronfa Gymunedol Assura Cymru Meini Prawf y Rhaglen Grantiau 2022

Canllawiau i ymgeiswyr

- 1 > Cyflwyniad i'r rhaglen
- 2 > Terfynau'r rhaglen
- 3 > Blaenoriaethau'r rhaglen
- 4 > Arian grant ar gael
- 5 > Pwy all wneud cais?
- 6 > Sefydliadau a gweithgareddau anghymwys
- 7 > Canlyniadau
- 8 > Egwyddorion ansawdd i'w hystyried
- 9 > Pryd i wneud cais
- 10 > Enghreifftiau nodweddiadol o brosiectau cymwys
- 11 > Dogfennau i gyd-fynd â'r cais
- 12 > Awgrymiadau terfynol wrth wneud cais
- 13 > Cyngor pellach
- 14 > Eich data wrth wneud cais
- 15 > Cyfathrebiadau
- 16 > Monitro a gwerthuso

1 > Cyflwyniad i'r rhaglen

**Nodyn gan Jonathan Murphy Prif Swyddog Gweithredol, Assura Plc,
Zoe Sheppard, Prif Swyddog Gweithredol, Sefydliad Cymunedol
Sir Gaer a Richard Williams Prif Swyddog Gweithredol, Sefydliad
Cymunedol Cymru.**

Diolch am ystyried gwneud cais am gyllid drwy Raglen Grantiau Cronfa Gymunedol Assura 2022 i Gymru. Mae'r rhaglen hon yn parhau i fod yn ymwybodol bod iechyd pobl yn cael ei bennu gan amrywiaeth o ffactorau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol a bod y sector gwirfoddol, ochr yn ochr â'r gwasanaethau gwerthfawr a ddarperir gan ddarparwyr gofal iechyd sylfaenol, yn chwarae rhan hanfodol a chyflenwol wrth fynd i'r afael ag anghenion phobl sy'n agored i niwed mewn ffordd gyfannol, gan gefnogi unigolion i gymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u lles eu hunain. Dangoswyd bod gan y cyfuniad o ofal iechyd sylfaenol ac ymyriadau anfeddygol fanteision emosïynol, gwybyddol a chymdeithasol pwerus fel ffordd ymarferol o leihau allgau cymdeithasol – ar gyfer pobl ddifreintiedig, ynysig a bregus – ac i bobl â phroblemau iechyd meddwl.

Croesawn amrywiaeth o geisiadau gan sefydliadau elusennol yng Nghymru sy'n gwella iechyd a lles amrywiaeth eang o gymunedau.

Cymerwch yr amser i ddarllen meini prawf llawn y rhaglen. Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais ac at allu gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ledled y DU.

Jonathan Murphy
Assura plc

Zoe Sheppard
Sefydliad Cymunedol Sir Gaer

Richard Williams
Sefydliad Cymunedol Cymru

2 > Terfynau'r rhaglen

Mae'r rhaglen hon yn dymuno cryfhau gallu sefydliadau'r sector gwirfoddol/elusennol yng Nghymru i ddarparu ystod o weithgareddau prosiect sydd yn cymryd lle:-

O fewn 30 milltir i adeilad gofal iechyd Assura (gweler canllawiau pellach yn Section 5. Pwy all wneud cais?)

Nod y rhaglen yw cefnogi lles pobl sy'n agored i niwed i feithrin gwydnwch a'u helpu i gael cefnogaeth, eu cyfeirio a'u cysylltu ag amrywiaeth o ymyriadau, cymorth a gweithgareddau anfeddygol.

Rhaid i weithgareddau'r rhaglen gael eu targedu at wella iechyd a lles meddyliol ac emosiynol, cael cefnogaeth ar gyfer heriau bywyd a darparu mwy o weithgareddau a chyfleoedd i ddysgu sgiliau newydd, er mwyn gallu gwella hunanhyder, hunan-barch ac ymdeimlad cryf o berthyn.

Mae'r rhaglen yn dymuno cefnogi pobl o bob oed gan gynnwys:

- > Pobl fregus sydd angen cymorth ar gyfer eu hiechyd meddwl a'u lles
- > Pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal sylfaenol yn aml.
- > Grwpiau o bobl sydd yn agored i niwed a phobl sydd wedi'u hynysu'n gymdeithasol (mamau sengl incwm isel, pobl oedrannus sydd mewn profedigaeth yn ddiweddar, pobl â salwch corfforol cronig, y rhai a ddiswyddwyd yn ddiweddar, y rhai â chyfrifoldebau gofalu a chymunedau sydd newydd gyrraedd).
- > Pobl sy'n byw mewn lleoedd sydd â'r lefelau uchaf o anfantais (oherwydd amddifadedd incwm, swyddi â chyflogau gwael, diffyg mynediad at gymorth)

- > Rydym yn croesawu ceisiadau sy'n ceisio gweithio gyda phobl nad oes ganddynt systemau cymorth priodol o'u cwrpas i gael gafael ar gymorth: pobl sy'n byw gydag anableddau, pobl o grwpiau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig (BAME); Pobl ifanc, Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol (LHDT); pobl o grwpiau economaidd cymdeithasol is; plant a phobl a allai brofi ffyrdd o fyw anhrefnus.

Bydd y grantiau'n ariannu:

- > **Costau staff:** cyllideb ar gyfer staff amser llawn a rhan-amser, staff sesiynol a chostau cysylltiedig eraill, e.e., cydlynedd gwirfoddolwyr.
- > **Costau gwirfoddoli:** ad-daliadau treuliau, e.e., galwadau ffôn, teithio a chynhaliaeth.
- > **Costau gweithgaredd:** adnoddau i hwyluso prosiect/gweithgaredd, e.e., arlwy, yswiriant, llogi ystafelloedd.
- > **Eitemau cyfalaf bach:** i alluogi gweithgareddau i gael eu cynnal megis deunyddiau crefft, offer chwaraeon/iechyd a lles ac ati.
- > **Costau trafnidiaeth:** ar gyfer gweithgareddau a all fod yn bellteroedd teithio byr i ffwrdd, er mwyn sicrhau bod y rhain yn hygyrch.

3 > Blaenoriaethau'r rhaglen

Rhaid i'r ardal lle mae gweithgareddau'r prosiect yn digwydd fod o fewn radiws o 30 milltir i adeilad gofal iechyd Assura. Byddem yn rhoi blaenoriaeth i geisiadau sy'n:

- > gallu meithrin **perthynas waith cryf** gydag asiantaethau cyfeirio – gan gynnwys meddygon teulu, gweithwyr gofal sylfaenol/gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.
- > yn gallu dangos arfer da a rhesymeg glir ynghylch pam y byddai gweithgaredd y prosiect yn llwyddiannus ac yn gallu cofnodi a dangos effaith y gweithgaredd.
- > darparu cyfleoedd i fuddiolwyr gymryd rhan yn y gwaith o gynllunio, dylunio, darparu a gwerthuso (Gweler Adran 12 hefyd).
- > dangos dulliau arloesol sydd wedi'u cynllunio i ymateb i anghenion sydd wedi'u diffinio'n glir.

4 > Arian grant ar gael

- > Mae **£100,000 ar gael yn 2022** ar gyfer grantiau blwyddyn (efallai y bydd rhagor o arian ar gael yn y dyfodol).
- > Yr isafswm grant yw **£1,000**, uchafswm grant o **£5,000**.
- > Bydd oddeutu **.20-30** o grantiau yn debygol o gael eu dyfarnu'n yng Nghymru.

5 > Pwy all wneud cais

- > Sefydliadau elusennol yng Nghymru sy'n gallu darparu gweithgareddau a gwasanaethau yn unol â meini prawf y rhaglen, **o fewn 30 milltir i adeilad gofal iechyd Assura**
- > Mae'r rhaglen wedi'i anelu at sefydliadau **bach i ganolig eu maint, lleol, ddielw yn y DU gan gynnwys** elusennau cofrestredig, grwpiau cymunedol a gyfansoddwyd a sefydliadau elusennol eraill gan gynnwys Mentrau Cymdeithasol a CiCs.
- > Y dewis yw cefnogi prosiectau yn eu cyfanrwydd lle bo hynny'n bosibl – neu lle mae'r ffynonellau ariannu eraill ar gyfer y prosiect eisoes wedi'u sicrhau.
- > I weld a yw lleoliad y rhan fwyaf o'r bobl y byddwch yn eu cefnogi o fewn 30 milltir i adeilad gofal iechyd sy'n eiddo i Assura, cliciwch y ddolen hon a rhwch god post perthnasol:- <https://www.assurapl.com/our-buildings>.
- > Gall partneriaethau ymgeisio ond rhaid cael un sefydliad **fel yr ymgeisydd arweiniol** – a rhaid i bob partner arall fod yn gymwys i gael cyllid.
- > Rhaid i sefydliadau weithredu o fewn cyfansoddiad cydnabyddedig, set o reolau neu ddogfen lywodraethu ysgrifenedig.
- > Nid yw sefydliadau rhanbarthol neu Genedlaethol yn gymwys – mae'r gronfa'n ceisio cefnogi grwpiau a sefydliadau elusennol lleol.
- > Mae systemau atgyweirio wedi'u sefydlu ar gyfer atgyweirio yn brydlon, gan roi gwybod i'r person a gefnogir pryd y gallant ddisgwyl derbyn gwasanaeth/cyswllt manylach gennych.
- > Yswiriant priodol ar gael ar gyfer gweithgareddau, staff a gwirfoddolwyr.
- > Gwybodaeth, llywodraethu, polisïau a gweithdrefnau cadarn (megis Diogelu Data, Cyfrinachedd a Diogelwch Gwybodaeth) sy'n briodol ar gyfer eich sefydliad/gweithgaredd – ac sy'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyfredol.
- > Polisïau a gweithdrefnau diogelu sy'n briodol ar gyfer eich sefydliad/gweithgaredd – ac sy'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyfredol.
- > Gwiriadau DBS ar gyfer rolau staff, ymddiriedolwyr a gwirfoddolwyr cymwys.
- > Awdurdod eich sefydliad i ddarparu gwasanaethau newydd/mwy o wasanaethau i ddarparu ar gyfer mwy o atgyfeiriadau rhagnodi cymdeithasol.
- > Polisïau, asesiadau risg a gweithdrefnau iechyd a diogelwch sy'n briodol i'ch sefydliad/grŵp/gweithgaredd ac sy'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyfredol.
- > Polisïau a gweithdrefnau cyfle cyfartal sy'n briodol ar gyfer eich sefydliad/grŵp/gweithgaredd ac sy'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth gyfredol.

Mae angen i sefydliadau gael:

- > Wedi bod yn cynnal gweithgareddau cymunedol, am o leiaf 12 mis yn ddelfrydol ac y gallai gweithwyr gofal iechyd proffesiynol wneud atgyfeiriadau iddynt.

6 > Sefydliadau anghymwys ac activities:

- > Sefydliadau sy'n cynhyrchu elw preifat.
- > Sefydliadau statudol gan gynnwys ysgolion, prifysgolion, neu ysbytai.
- > Sefydliadau rhanbarthol neu genedlaethol.
- > Sefydliadau sy'n hyrwyddo gweithgarwch pleidiol gwleidyddol.
- > Costau ôl-weithredol, h.y. unrhyw beth y talwyd amdano eisoes neu sydd eisoes wedi digwydd neu unrhyw gostau a warwyd cyn derbyn cynnig grant.
- > Ceisiadau gan unigolion.
- > Ceisiadau sydd yn gofyn am gyfraniad tuag at waith adeiladu mawr, seilwaith neu waith adnewyddu cyfalaf.
- > Unrhyw gostau o'r gwaith llunio'r cais.
- > Mae'r rhaglen yn agored i sefydliadau ffydd. Fodd bynnag, ni allwn ariannu arfer crefydd nac unrhyw weithgareddau sy'n mynd ati i hyrwyddo crefydd neu systemau cred (neu ddiffyg cred). Y rheswm am hyn yw y gallai'r gweithgareddau hyn eithrio pobl rhag cael mynediad at weithgaredd ar sail grefyddol.

7 > Canlyniadau

Rydym yn awyddus i ariannu prosiectau a all fodloni o leiaf un neu fwy o'r canlyniadau isod a gallu mesur llwyddiant yn erbyn y dangosyddion llwyddiant ansoddol a meintiol:

Canlyniadau	Dangosyddion a awgrymir i fesur hyn
Gwell mynediad at wasanaethau a chymorth	Nifer o bobl sy'n dweud eu bod yn gallu cael gafael ar wasanaethau neu gymorth yn well.
Gwell dyheadau ar gyfer y dyfodol	Nifer o bobl sy'n nodi cynnydd mewn dyheadau a nodau personol. Nifer o bobl sy'n dweud eu bod ganddynt fwy o hunan-barch a hyder.
Gwell iechyd meddwl a lles	Nifer o bobl sy'n adrodd am well iechyd meddwl neu les. Nifer o bobl sy'n dweud eu bod wedi lleihau straen, pryder a/neu symptomau iselder. Nifer o bobl sy'n dweud eu bod yn fwy gwydn a/neu hunanofal. Nifer o bobl sy'n dweud eu bod ganddynt fwy o hunan-barch a hyder. Nifer o bobl sy'n cael triniaeth/therapi i ddiwallu eu hanghenion. Nifer o bobl y bu'r driniaeth/rhaglen yn llwyddiannus neu'n debygol o fod yn llwyddiannus ar eu cyfer.
Gwell iechyd a lles corfforol	Nifer o bobl sy'n adrodd am well iechyd neu les corfforol. Nifer o bobl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, ymarfer corff a gweithgareddau hamdden. Nifer o bobl sy'n dweud eu bod yn fwy egniol yn gorfforol. Nifer o bobl sy'n cael triniaeth/therapi i ddiwallu eu hanghenion. Nifer o bobl sy'n nodi gwelliannau yn eu diet, i fod yn iachach ac yn fwy cytbwys. Nifer o bobl y bu'r driniaeth/rhaglen yn llwyddiannus neu'n debygol o fod yn llwyddiannus ar eu cyfer.
Gwell rhwydweithiau cymdeithasol	Nifer o bobl sy'n adrodd am rwydweithiau cymdeithasol gwell. Nifer o bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n llai unig. Nifer o bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo mwy o ymdeimlad o berthyn yn eu cymuned.
Mwy o sgiliau rhyngpersonol (sgiliau cymdeithasol, cyfathrebu a pherthnasoedd)	Nifer o bobl sy'n adrodd am fwy o sgiliau rhyngpersonol (cymdeithasol, cyfathrebu a pherthynas). Nifer o bobl sy'n adrodd am rwydweithiau cymdeithasol gwell. Nifer o bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n llai unig.
Llai o arwahanrwydd cymdeithasol	Nifer o bobl sy'n mynychu sesiynau gweithgareddau. Nifer o oriau o weithgareddau cymunedol a ddarperir. Nifer o bobl sy'n adrodd am rwydweithiau cymdeithasol gwell.
Llai o unigrwydd i bobl unigol	Nifer o bobl sy'n dweud eu bod yn teimlo'n llai unig. Nifer o bobl sy'n adrodd am rwydweithiau cymdeithasol gwell. Nifer o bobl sy'n adrodd am well iechyd meddwl neu les.

8 > Egwyddorion ansawdd i'w hystyried:

- > Gallu dangos eich bod wedi ymgynghori â phobl ar gyfer y gweithgaredd a fydd yn cael ei gyflawni.
- > Cael dealltwriaeth o arfer gorau cenedlaethol perthnasol ar gyfer y gweithgaredd a sut y gallai hyn fod yn berthnasol.
- > Cyllideb wedi'i chostio'n dda sy'n cynrychioli gwerth da am arian.
- > Offer a thechnegau cryf i fesur ac adrodd ar newidiadau cadarnhaol a wnaed.

9 > Pryd i wneud cais

23 Mai 2022: Lansio'r rhaglen – mae cais ar-lein ar gael.

3ydd o Orffennaf (hanner nos) 2022: Dyddiad Cau. Rydym yn cadw'r hawl i gau'r rhaglen yn gynnar **os cyrhaeddwn ddigon o geisiadau ac ansawdd ceisiadau yn gynt** na'r dyddiad cau - felly anogir grwpiau i ddechrau'r broses cyn gynted â phosibl a **gwneud cais yn gynnar**.

8fed o Orffennaf 2022: Bydd pob cais wedi'i bod trwy'r cam cyntaf o asesu. Bydd uchafswm o **50 o geisiadau** yn mynd ymlaen i gael asesiad llawn (hysbysir ceisiadau sydd wedi'u gwrthod nad ydynt yn symud ymlaen y tu hwnt i'r cam cyntaf).

29ain o Fedi 2022: Bydd ceisiadau wedi'u hasesu'n llawn - gall hyn gynnwys galwad ffôn, i egluro agweddau am eich cais yn barod i'w cyflwyno i'r Panel Grantiau er mwyn gwneud penderfyniad.

7fed o Hydref 2022: bydd tua **20-30 o grantïon llwyddiannus yn cael grantiau blwyddyn**. Rhaid i grantiau allu dechrau cyn gynted â phosibl ar ôl eu derbyn ac erbyn Ionawr 2023 fan bellaf.

10 > Enghreifftiau o brosiectau cymwys:

- > Cyfeiriwch at wefan Cronfa Gymunedol Assura lle mae llawer o astudiaethau achos ar gyfer prosiectau sydd eisoes wedi'u cefnogi.

<https://www.assurapl.com/making-a-difference/assura-community-fund/what-weve-funded-2021>

<https://www.assurapl.com/making-a-difference/assura-community-fund/what-weve-funded-2020>

Gallai elfennau cadarnhaol eraill ar gyfer pobl a gefnogir cynnwys:

- > annog ffrindiau newydd ac yn teimlo'n llai ynysig.

- > gallu ymdopi'n well â straen arferol bywyd a bod yn fwy egniol, cynhyrchol a chael ymdeimlad o bwrpas.

- > gallu siarad yn well am eu hiechyd meddwl a'u lles mewn ffyrdd newydd, gyda pobl newydd.

- > gallu cymryd camau cadarnhaol drostynt eu hunain neu eraill yn well.

11 > Dogfennau i gyd-fynd â'r cais:

- > Rhestr o enwau eich pwyllgor/bwrdd rheoli.
- > Copi o'ch dogfen lywodraethol (e.e., cyfansoddiad, memorandwm ac erthyglau neu set o reolau).
- > Copi o'ch cyfrifon blynyddol diweddaraf.

- > Llungopi o ddatganiad banc sydd yn 3 mis oed neu lai. Rhaid i'r cyfrif banc fod yn enw'r sefydliad sy'n gwneud cais.
- > Copi o'ch polisïau Diogelu a Chyfle Cyfartal.

12 > Awgrymiadau terfynol wrth wneud cais:

- > Cynnwys pobl mewn dylunio, meincnodi, cynllunio, cyflwyno a gwerthuso – gofynnwch i bobl pwy y byddwch yn eu cefnogi am gyngor.
- > Ystyried hyblygrwydd ac ymatebolrwydd, sy'n cael ei ystyried yn allweddol i ymgysylltu'n dda. Gall gweithgareddau rheolaidd a gynhelir ar yr un pryd bob wythnos weithio'n dda ond efallai nad dyma'r fformiwla gywir bob amser.

Gallai digwyddiadau bychain ar adegau allweddol mewn amserlen o weithgareddau hefyd fod yn opsiwn posibl a helpu i oresgyn gwrthdaro ag ymrwymadau eraill a heriau amseru, er enghraifft, i bobl sy'n gweithio neu sydd â chyfrifoldebau gofalu.

13 > Cyngor pellach:

- > Ar gyfer unrhyw ymholiadau am geisiadau grant neu'r broses o wneud cais, cysylltwch â Sefydliad Cymunedol Cymru ar 02920 379580 neu e-bostiwch grants@communityfoundationwales.org.uk
- > Sefydliad Cymunedol Sir Gaer ar 01606 330 607 neu e-bostiwch assura@cheshirecommunityfoundation.org.uk
- > Cyfeiriwch hefyd at dudalen y rhaglen ar wefan Sefydliad Cymunedol Cymru a Sefydliad Cymunedol Sir Gaer
<https://communityfoundationwales.org.uk/grants-overview/>
<https://cheshirecommunityfoundation.org.uk/apply-for-funding/>

14 > Eich data wrth wneud cais

Drwy lenwi ffurflen gais ar gyfer y rhaglen hon, bydd Sefydliad Cymunedol Sir Gaer a Sefydliad Cymunedol Cymru yn defnyddio'r data personol amdanoch chi ac unigolion eraill a enwir yn eich cais i asesu a gweinyddu cais am grant ar gyfer **Rhaglen Grantiau Cymru Cronfa Gymunedol Assura**. Gellir defnyddio data personol am eich bwrdd neu bwyllgor rheoli hefyd i'w adnabod.

Pan fydd angen, bydd data personol a gesglir drwy'r broses ymgeisio yn cael ei rannu â Sefydliad Cymunedol Sir Gaer, Sefydliad Cymunedol Cymru, Assura Plc, aseswyr rhaglenni a gyda thrydydd parti eraill, lle mae'r gyfraith yn caniatáu hynny neu'n ei gwneud yn ofynnol.

Gall unrhyw ffotograffau a sylwebaeth a ddarperir i gefnogi eich cais gynnwys data personol sy'n ymwneud ag unigolion a gefnogir gan eich prosiect. Gellir defnyddio'r lluniau, logos a manylion hyn mewn deunydd hyrwyddo a grëwyd mewn perthynas â'ch cais a gallant ymddangos ar ein gwefan a'n llenyddiaeth.

Byddwn ond yn defnyddio eich gwybodaeth lle mae gennym sail gyfreithiol i wneud hynny, er enghraifft, i gyflawni ein buddiannau busnes cyfreithlon i reoli a hyrwyddo ein grantiau neu i gyflawni ein rhwymedigaethau cyfreithiol neu gontractio. Drwy ddarparu unrhyw ddata personol am berson arall, rydych yn cadarnhau eu bod yn deall sut y gellir defnyddio a rhannu eu data.

Mae gennych hawliau penodol o ran eich gwybodaeth bersonol. Mae hyn yn cynnwys hawliau i gael mynediad at eich gwybodaeth a'i chywiro, a dileu, trosglwyddo, gwrthwynebu, cyfyngu neu gymryd caniatâd ynghylch sut rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth. Cysylltwch â Sefydliad Cymunedol Sir Gaer fel uchod, os oes gennych chi neu unrhyw un a enwir yn eich cais unrhyw bryderon ynghylch y wybodaeth sy'n cael ei defnyddio'n gyhoeddus neu os ydych yn dymuno arfer unrhyw un o'r hawliau hyn.

15 > Cyfathrebu

Ar gyfer sefydliadau llwyddiannus byddwn yn creu deunyddiau, datganiadau i'r wasg a sianeli cyfryngau cymdeithasol i ddathlu'r grantiau a ddyfarnwyd. Byddwn bob amser yn gofyn am eich caniatâd cyn rhoi eich manylion cyswllt i'r wasg neu i unrhyw drydydd parti.

Bydd sefydliadau hefyd yn gallu cynhyrchu eu llenyddiaeth eu hunain; fodd bynnag, bydd angen i unrhyw hyrwyddiad i'r cyhoedd gael ei gymeradwyo gan Sefydliad Cymunedol Sir Gaer, gan gynnwys defnyddio logos unrhyw raglen neu sefydliad.

16 > Monitro a gwerthuso

Bydd yn ofynnol i sefydliadau llwyddiannus gwblhau un adroddiad monitro Diwedd Grant ffurfiol ar ddiwedd tymor y grant ond efallai y gofynnir iddynt am ddiweddariad interim byr drwy e-bost. Byddwn yn gofyn i chi sut y gwariwyd y grant, yn ogystal â'r gwahaniaeth y mae'r prosiect wedi'i wneud (uwchlaw a thu hwnt i fesur presenoldeb ac ymddygiad), yr hyn a gyflawnwyd, unrhyw faterion allweddol a'r gwersi a ddysgwyd.

Cyn dechrau'r prosiect, awgrymwn fod sefydliadau llwyddiannus yn cymryd yr amser i ddarllen y ffurflenni monitro Diwedd Grant a rennir wrth ddyfarnu grant, fel y gellir cofnodi'r wybodaeth angenrheidiol o'r cychwyn cyntaf. Dylai hyn gynnwys:

- > Rhannu'r ffurflen werthuso gyda staff yn y sefydliad.
- > Trafod a phenderfynu ar nodau penodol yn seiliedig ar y cais.
- > penderfynu pwy fydd yn ysgrifennu'r adroddiad.

- > casglu data o'r cychwyn cyntaf.
- > data meintiol (niferoedd) – faint o bobl sy'n cymryd rhan neu'n defnyddio'r gwasanaeth, wedi cyflawni nodau (e.e. cyflogaeth, gwell iechyd).
- > data ansoddol (storïau) – adborth gan ddefnyddwyr a gwirfoddolwyr, gwelwyd cynnydd mewn sgiliau, hyder ac ati.
- > dysgu – adborth gan gyfranogwyr y prosiect, beth aeth yn dda, beth fydddech chi'n ei wneud yn wahanol ac ati.
- > Sicrhau bod amser wedi'i neilltuo i gwblhau'r ffurflen.

Dylai sefydliadau a ariennir hefyd fod yn barod i drafod cynnydd y prosiect dros y ffôn yn ôl yr angen ac i gynnal ymweliadau a fydd yn cynorthwyo gydag unrhyw waith monitro, dysgu ac arfer gorau dros dro.

CHESHIRE
COMMUNITY
FOUNDATION



Assura plc

The Brew House, Greenalls Avenue, Warrington WA4 6HL
T 01925 420660 | E info@assura.co.uk | www.assura.co.uk

 [@assuraplac](https://twitter.com/assuraplac)  [in assura plc](https://www.linkedin.com/company/assura-plc)  [AssuraplacCommunity](https://www.facebook.com/AssuraplacCommunity)